



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 23 Ionawr 2020 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd R Lewis Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Mr. M. Phillips, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd G Davies

91 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser.

92 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

93 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr,

2018 yn rhai cywir.

94 Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y newid i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd, a **PHENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd
2. Nodi bod hawl gan Arweinydd y Cyngor i newid y Cynllun Dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol unrhyw bryd yn y flwyddyn; a bod diweddariad o adran 3A yn cael ei gyflwyno i Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.

95 Ailgylchu yn RhCT - Argymhellion y Grŵp Llywio ar Faterion yr Hinsawdd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, a ystyriodd adroddiad ar gyflawniad ailgylchu ar gyfer 6 mis cyntaf 2019/20, y Cyfleuster Adennill Deunydd newydd, datblygiadau ym Mryn Pica ar gyfer y dyfodol a newidiadau deddfwriaethol posibl.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau, yn dilyn trafodaeth yn eu cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2019, fod y Grŵp Llywio o'r farn bod Cyngor RhCT ar flaen y gad o ran gwelliant parhaus yn yr ardal. Teimlai'r Grŵp Llywio bod y Cyngor mewn sefyllfa gadarnhaol i newid y targed ailgylchu i 80% erbyn 2024/25, ar y cyd ag ymgyrch farchnata addas i roi gwybod ar y camau gorfodi sy'n wynebu preswylwyr os na fyddant yn ailgylchu.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a drafodwyd gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 18 Rhagfyr 2019 a;
2. Newid y targed ailgylchu i 80% erbyn 2024/25.

96 Ffynnon Dwym Ffynnon Taf - Argymhellion y Grŵp Llywio ar Faterion yr Hinsawdd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, a oedd wedi trafod adroddiad ar y sefyllfa gyfredol o ran Prosiect Ynni Adnewyddadwy Ffynnon Dwym Ffynnon Taf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth y Cabinet fod y Grŵp Llywio wedi cael cyflwyniad Power Point manwl yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2019, a oedd yn ceisio egluro cefndir y prosiect, y ffordd arfaethedig ymlaen a'r goblygiadau o ran costau. Roedd y Grŵp Llywio yn arbennig o falch o glywed bod disgwyl i'r prosiect craidd cyfredol arbed 37.1 tonnell o CO₂, a chytunwyd i argymhell i'r Cabinet gymeradwyo'r prosiect.

Manteisiodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r Grŵp Llywio am eu gwaith, ac i'r Aelod Lleol am wthio prosiect mor gadarnhaol yn ei flaen.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a drafodwyd gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 18 Rhagfyr 2019 a;
2. Cymeradwyo camau nesaf y prosiect.

97 Adroddiadau Blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru 2018-2019

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru i'r Cabinet. Mae'n ofynnol ei ddwyn gerbron y Cabinet yn rhan o Reoliad 22 o Reoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdod Lleol (Cymru) 2007 ac Adran 15 (c) o Gyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Rheoliadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015.

Cyfeiriwyd yr aelodau at Atodiad 1 yr adroddiad, lle manylwyd ar yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-19. Dysgon nhw y bu cynnydd yn nifer y plant a leolwyd i'w mabwysiadu a bod recriwtio rhieni yn parhau i fod yn her. Aeth y swyddog ymlaen i siarad am y buddsoddiad o £2.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru, a oedd wedi'i ddarparu i gefnogi'r blaenoriaethau a gwella cyflawniad, o bosibl.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

98 Dirprwyo awdurdod i orfodi darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2019 (Ffioedd ac ati)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned yr adroddiad, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned ac i'r Awdurdod Trwyddedu unigol yng Nghymru (Rhentu Doeth Cymru) o ran defnyddio pwerau gorfodi Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019.

Soniodd y Cyfarwyddwr am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019, a ddaeth i rym ar 5 Mai 2019. Esboniwyd bod asiantau gosod a landlordiaid sy'n rheoli eu heiddo eu hunain yn cael eu hatal rhag codi unrhyw ffioedd cyn, yn ystod neu ar ôl tenantiaeth oni bai eu bod wedi'u heithrio'n benodol yn y Ddeddf.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Adran 4.4 yr adroddiad, lle amlinellwyd y taliadau y mae hawl gan asiantau gosod a landlordiaid hunanreoli eu codi. Esboniwyd y gallai'r Cyngor a Rhentu Doeth Cymru orfodi'r gofynion newydd ac y byddai'n cyfrannu at brofiad tecach a mwy tryloyw i denantiaid sy'n dibynnu ar y sector rhentu preifat.

Cyn y drafodaeth, dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau am wall yn Adran 2.1 yr adroddiad gan ddweud, pe byddent yn bwriadu cymeradwyo'r argymhellion, y dylid dileu'r gair 'of' o'r teitl 'Renting of Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019' yn y fersiwn Saesneg.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg yn gadarnhaol am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019, gan nodi ei bod yn gwella hawliau tenantiaid ac yn darparu diogelwch

ariannol i breswylwyr.

Holodd y Dirprwy Arweinydd a fyddai'r Ddeddf yn cael effaith gadarnhaol ar Dai Amlfeddiannaeth (HMOs), a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr ei fod yn gam cadarnhaol ymlaen yn hynny o beth ac y byddai'n atal cytundebau benthyciad ac ati.

Roedd y Cabinet yn hapus i ddarparu cefnogaeth, yn amodol ar ddiwygio Adran 2.1, a **PHENDERFYNWYD**:

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned ar gyfer gorfodi darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019 a nodi y byddai'r Swyddog Monitro yn gwneud unrhyw welliant dilynol sy'n ofynnol i'r Cyfansoddiad y Cyngor;
2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Reolwr Gweithrediadau Rhentu Doeth Cymru ar gyfer gorfodi darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019 a nodi y byddai'r Swyddog Monitro yn gwneud unrhyw welliant dilynol sy'n ofynnol i'r Cyfansoddiad y Cyngor;

99 Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020/21

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am setliad llywodraeth leol 2020/2021 a chanlyniadau cam 1 o ymgynghoriad y gyllideb, i gynorthwyo gyda'i drafodaethau wrth lunio'r strategaeth cyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Caiff hon ei hargymell i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Atodiad A yr adroddiad, lle paratowyd papur trafod gan Uwch Arweinwyr y Cyngor mewn ymateb i Setliad Llywodraeth Leol 2020/21. Roedd y swyddogion wedi rhoi sylw dyledus i'r Cynllun Corfforaethol drafft newydd "Gwneud Gwahaniaeth" 2020-2024, wrth lunio'r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad yn manylu ar farn y swyddogion, sef codi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21 ar lefel sy'n cydbwysu'r awydd am ddarparu gwasanaeth teg a chyfiawn â'r angen i gydnabod yr effaith y gall beichiau treth gormodol ei chael ar aelwydydd lleol.

Soniodd y Cyfarwyddwr am y Setliad Llywodraeth Leol 2020/2021 Arfaethedig, a ragwelodd y byddai cynnydd Cyngor RhCT yn cael ei bennu ar 4.5%. Eglurwyd bod sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn gadarn, ond dydy balansau'r Cronfeydd Cyffredinol ddim yn ormodol. Mae rhaid i'r Cyngor, felly, barhau i ganolbwyntio ar gynnal balansau'r Cronfeydd Cyffredinol ar isafswm o £10M, er mwyn lliniaru unrhyw risg o ansefydlogrwydd gyllideb yn y dyfodol. Yn ogystal â hynny, mae cyfle i ddefnyddio'r Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig yn bragmataidd ar gyfer arian pontio heb wneud niwed i i sefydlogrwydd ariannol y Cyngor, neu ostwng balansau ein Cronfeydd Cyffredinol yn is na £10 miliwn.

O ran gosod lefel Treth y Cyngor, soniodd y Cyfarwyddwr am ddefnyddio dull rhesymol, a fyddai'n cydbwysu'r effaith ar wasanaethau a gallu'r cyhoedd i dalu. Aeth ymlaen i roi gwybod i'r Cabinet am yr adborth o Gam 1 y broses ymgynghori, a oedd yn ceisio barn y Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad, preswylwyr a rhanddeiliaid mewn perthynas â'r blociau adeiladu strategol allweddol a ddefnyddir i lunio cyllideb y Cyngor. Nododd yr Aelodau mai'r cynnig gwreiddiol a gafodd ei foddelu oedd cynyddu Treth y Cyngor yn 2020/21 o 3.00%,

ond cynigiwyd y dylid cynyddu Treth y Cyngor o 2.85% yn lle hynny. Byddai hyn yn cynyddu'r bwloch cyllidebol sy'n weddill o £0.132 miliwn.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Adran 8 o adroddiad yr Uwch Arweinwyr, lle nodwyd cynigion Cyllideb 2020/21 i'w hystyried gan y Cabinet. Ceisiodd y cynigion barhau i amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen a blaenoriaethu meysydd allweddol, megis cynyddu Cyllideb yr Ysgol o £148.9 miliwn i £161.6 miliwn, cynnydd o £12.7 miliwn, neu 8.5%.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr fanylion y cynigion canlynol:

- Cynllun rhyddhad lleol - Ardrethi Annomestig
- Ymgysylltu â Phobl Ifanc / Troseddu Ieuencid
- Pyllau Padlo
- Benthycu Darbodus ar gyfer Buddsoddi yn ein Seilwaith
- Cefnogi Canolfan Gelf y Miwni
- Ffioedd a chostau
- Arbedion Ail-dendro Cludiant Cartref i Ysgol
- Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor
- Strategaeth Llety â Chymorth ac Arbedion

Gorffennodd y Cyfarwyddwr trwy roi gwybod i Aelodau'r Cabinet, pe bydden nhw'n bwriadu cymeradwyo'r cynigion ger eu bron, y byddai Cam 2 yr ymgynghoriad yn cychwyn ar unwaith. Byddai'r Strategaeth Gyllideb ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet i'w chymeradwyo ar 20 Chwefror 2020 ac yna i'r Cyngor i'w gadarnhau ar 4 Mawrth 2020.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r Uwch Arweinwyr, swyddogion cyllid a rheolwyr gwasanaeth am yr adroddiad cadarn, a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor leihau'r bwloch yn y gyllideb ymhellach, wrth gynnal neu ehangu gwasanaethau allweddol i drigolion Rhondda Cynon Taf. Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi bod y cynigion yn dangos y cynnydd arian parod mwyaf i ysgolion - bron i 13 miliwn, cynnydd o 9.3 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol, cynnydd o 13% yn y gyllideb darpariaeth ieuencid a £50,000 ar gyfer pyllau padlo. Dywedodd yr Arweinydd, er ei fod yn buddsoddi'n sylweddol yn ei wasanaethau, fod Cyngor RhCT wedi cynnig y cynnydd isaf yn Nhreth y Cyngor, o bosibl, o'i gymharu â'r Awdurdodau Lleol cyfagos, lle roedd toriadau gwasanaeth yn dal i gael eu cynnig.

Gan gyfeirio at adborth ymgynghoriad Cam 1, dywedodd yr Arweinydd fod 80.8% o drigolion wedi nodi y byddent yn talu cynnydd o 3% yn Nhreth y Cyngor i gynnal y lefel gyfredol o wasanaethau, a bod y cynnydd arfaethedig mewn gwirionedd yn 2.85%.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet y cynnig, gan nodi er bod y Cyngor o dan bwysau sylweddol, fod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd dyrchafol fel ysgolion a darpariaeth ieuencid.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd am y broses ymgynghori ac roedd yn falch o nodi bod 90% o'r preswylwyr yr ymgynghorwyd â nhw yn cytuno ar y 5 maes blaenoriaeth allweddol; aeth ymlaen i ddiolch i OPAG, Fforwm Ieuencid y Sir a'r Fforwm Anabledd am eu mewnbwn gwerthfawr. Aeth y Dirprwy ymlaen i siarad am y buddsoddiad i ddatblygu Canolfan Gelf y Miwni, YMCA a Dyffryn Taf, a

fyddai'n cyfrannu at wneud Pontypridd yn ganol tref fywiog.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y cynnig i gynnwys £50,000 yn y Strategaeth Gyllideb ar gyfer pyllau padlo. Cydnabu'r Cabinet y straeon llwyddiant a'r gwerth ychwanegol o gynnwys grwpiau cymunedol ar gyfer datblygiadau ehangach.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau'r Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth am y cynnydd o 50c ar gyfer nofio i oedolion yn y Lido, gan nodi ei bod yn braf gweld bod preswylwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleuster ac yn barod i dalu mwy.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, ac yntau yn Gadeirydd y Pwyllgor, siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman am yr eitem, ac ymatebodd yr Aelodau i hyn.

Wrth ymateb i awgrymiadau'r Aelod, pwysleisiodd yr Arweinydd yr angen i flaenoriaethu ar draws meysydd gwasanaeth, gan ystyried yn gryf yr effaith y gall beichiau treth gormodol ei chael ar breswylwyr.

Cafwyd trafodaethau ynghylch darpariaeth ieuencid, gydag Aelodau'r Cabinet yn nodi bod buddsoddiadau'r Cyngor mewn addysg, cyswllt di-wifr canol trefi, hamdden, ardaloedd chwarae, theatr a grwpiau chwaraeon i gyd o fudd i bobl ifanc ar gyfer y dyfodol. Siaradodd yr Aelodau hefyd am Gynllun Graddedigion a Phrentisiaethau'r Cyngor, sy'n rhoi hyfforddiant, sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, er eu bod yn gost referniw i'r Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd fod croeso i Grwpiau gwleidyddol eraill gyflwyno cynigion cyllideb amgen i'w hystyried.

Cynigiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol rewi'r taliadau am brydau ysgol am ddwy flynedd, ar ôl y cynnydd o 5c yn 2020/2021, y cytunodd yr Aelodau eraill iddo.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi bod y gweithdrefnau sy'n ymwneud ag adeiladu cyllideb referniw, y broses ymgynghori cyllideb, ac adrodd i'r Cyngor, wedi'u nodi yn "Y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi", sy'n cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor;
2. Nodi ac ystyried canlyniadau proses cam 1 o ymgynghori ar y gyllideb;
3. Strategaeth ddrafft 2020/2021 Cyllideb Referniw, y manylir arni yn y Papur Trafod ynghlwm 'Atodiad A', fel sail y bydd ail gam yr ymgynghori yn digwydd;
4. Cynnig rhewi'r taliadau am brydau ysgol am ddwy flynedd, ar ôl y cynnydd o 5c yn 2020/2021;
5. Yr amserlen ddrafft ar gyfer pennu cyllideb referniw 2020/2021, sydd wedi'i nodi yn Atodiad A2.
6. Derbyn adborth o ail gam yr ymgynghoriad cyllideb er mwyn ystyried a phenderfynu ar y strategaeth gyllidebol derfynol i'w chyflwyno i'r Cyngor; a
7. Bod y Cyngor yn parhau i gefnogi'r strategaeth ariannol tymor canolig gyda'r nod o sicrhau'r effeithlonrwydd parhaus o ran darparu gwasanaethau, trawsnewid gwasanaethau wedi'u targedu a newidiadau eraill sy'n cynnal uniondeb ariannol y Cyngor wrth barhau i anelu cymaint â phosibl i ddiogelu swyddi a gwasanaethau

allweddol.

100 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod yma yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff xx o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

101 Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol - y diweddaraf

Yn dilyn trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n cynnwys Gwybodaeth Eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth ynglŷn â materion ariannol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno), **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Cynyddu'r targed i 35% ar gyfer lleihau ôl troed llety swyddfa erbyn 2021/22.

102 Dileu dyledion nad oes modd eu casglu

Yn dilyn ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol unrhyw rai penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno), **PENDERFYNWYD:**

1. Dileu'r cyfrifon sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2 i'r Ddarpariaeth o Ddyledion sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor (gan geisio taliad os daw rhagor o wybodaeth am unrhyw ddyled i'r amlwg).

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**